



Gwarchod plant

This information is also available in English

Beth yw gwarchodwr plant?

Mae gwarchodwr plant yn gofalu am un plentyn neu fwy sydd dan 12 oed mewn lleoliad domestig nad yw'n gartref i'r plentyn am dâl am gyfnod o fwy na dwy awr y dydd.

Maent yn gyffredinol yn hunan gyflogedig ac yn rhedeg eu busnes eu hunain ac felly maent yn rheoli pa mor aml a phryd maent yn gweithio. Mae'n angenrheidiol cael yswiriant yn ei le.

Rhaid i warchodwyr plant fod wedi'u cofrestru gyda AGC (Arolygaeth Gofal Cymru) i sicrhau eu bod yn gallu darparu amgylchedd diogel a symbylgar i blant yn eu gofal. Rhaid iddynt gadw at yr Isafswm Safonau Cenedlaethol a chael eu harchwilio'n rheolaidd.

*Mae'n anghyfreithlon i ofalu am blant am dâl o unrhyw fath (boed arian neu werth yr arian) os nad ydych wedi eich cofrestru.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Er mwyn bodloni AGC eich bod yn ymgeisydd addas i ofalu am blant dan 12 oed:

- ◇ mae'n rhaid i chi ddangos fod gennych yr wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da. Bydd angen i chi basio cwrs IHC/PCP (Cyflwyniad i Ofal Plant yn y Cartref/Paratoi ar gyfer Ymafrer ym Maes Gwarchod Plant) a chwrs cymorth cyntaf paediatrig 12 awr cyn cofrestru, a chyn gynted ag y bo modd, cwrs diogelu a chwrs lefel 2 mewn diogelwch bwyd. Efallai y bydd angen cymhwyster pellach os ydych yn edrych ar ôl plant 8 - 12 oed.
- ◇ mae'n rhaid i chi ac unrhyw un arall dros 16 oed sy'n byw ar y safle gael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (BCT yn flaenorol).
- ◇ mae'n rhaid i chi ddangos bod y lle rydych yn bwriadu gofalu am y plant yn addas a diogel. Os yw'r llety'n cael ei rentu, bydd angen i chi ddarparu llythyr gan eich perchennog yn rhoi caniatâd i chi i ddefnyddio'r adeilad i'r perwyl hwn.
- ◇ ei bod yn ymddangos i AGC bod holl anghenion Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a Gorchymyn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd 2016 yn cael eu bodloni ac yn debygol o gael eu bodloni.
- ◇ Ni ddylech chi nac unrhyw un arall sy'n byw neu weithio yn yr un tŷ fod wedi eich gwahardd rhag cael ei gofrestru'n flaenorol.

Cysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol

PACEY Cymru
02920 351407
paceycymru@pacey.org.uk

[Register as a childminder in Wales | PACEY | PACEY](#)

AGC
0300 7900 126
[Cofrestru Gwasanaeth Gofal Plant a Chwarae | Arolygiaeth Gofal Cymru](#)

Tîm Addysg Blynyddoedd
Cynnar a Datblygiad Gofal
Plant
01492 577862
hyfforddiantPDBCGP@conwy.gov.uk

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy
01492 577850
plant.children@conwy.gov.uk

Gwybodaeth ar faterion ariannol

www.hmrc.gov.uk/courses/syob3/cm/HTML/cm_menu.html

Gwybodaeth ar ddiogelwch bwyd:

[Bwyd mwy diogel, busnes gwell ar gyfer gwarchodwyr plant | Asiantaeth Safonau Bwyd \(food.gov.uk\)](#)

Faint o blant y gallaf eu gwarchod?

Dywed Isafswm Safonau Cenedlaethol i Warchodwyr Plant yng Nghymru na all gwarchodwyr plant ofalu am fwy na 10 o blant dan 12 oed. Bydd hyn yn ddibynnol ar faint yr adeilad.

O'r deg plentyn, ni all mwy na chwe phlentyn fod o dan 8 oed.

O'r chwe phlentyn, ni all mwy na thri phlentyn fod o dan 5 oed.

O'r tri phlentyn, fel arfer ni all mwy na dau blentyn fel arfer fod o dan 18 mis, er y gall eithriadau gael eu gwneud ar gyfer brodyr a chwiorydd.

Ni ddylai unrhyw ofal a ddarparwyd i blant 12 - 14 oed effeithio er gwaeth ar y gofal mae plant dan 12 oed yn ei gael.

Y graddfeydd, gan gynnwys plant y gwarchodwr plant, ac unrhyw blant eraill mae ef/hi yn gyfrifol amdanynt sydd yn yr adeilad.

Nid oes angen i chi gofrestru os:

- ◇ ydych yn rhiant, gofalwr maeth neu berthynas i'r plentyn.
- ◇ nad yw cyfanswm y cyfnod gofal mewn diwrnod yn fwy na 2 awr.
- ◇ os yw gofal yn cael ei ddarparu gan rywun a gyflogir yn uniongyrchol gan rieni hyd at ddau deulu (fel nani neu au pair) ac yn gofalu am blant yng nghartrefi un o'r ddau deulu.
- ◇ os yw gofal yn cael ei ddarparu o 6 p.m. ar unrhyw ddiwrnod ac yn gorffen erbyn 2 a.m. ar y diwrnod canlynol.
- ◇ os yw ffrindiau'n gofalu am blant ei gilydd ac nad oes tâl (boed arian neu werth yr arian) yn cael ei wneud am y gwasanaeth.

Sut wyf yn cofrestru?

Cysylltwch â'r Tîm Addysg Blynyddoedd Cynnar a Datblygiad Gofal Plant yn Y Ganolfan Integredig yn Rhodfa'r Eglwys, Llandudno am wybodaeth ar y cyrsiau a'r gefnogaeth sydd ar gael.

Mae'r broses cofrestru, yn nodweddiadol, yn cymryd rhwng chwech a naw mis. Mae cyngor a chefnogaeth ar gael bob amser gan y tîm blynyddoedd cynnar a gwarchod plant.

Edrych ar yr wybodaeth ar wefan AGC a chwblhewch y ffurflen. Bydd angen i chi gysylltu ag amrywiol asiantaethau, megis iechyd amgylcheddol a HMRC a chael geirda, gan gynnwys un gan eich meddyg.

Unwaith y bydd y cais wedi'i gyflwyno, bydd AGC yn trefnu i ymweld â'r cartref i wneud yn siwr eich bod yn deall ac yn gallu cyfarfod y rheoliadau a chadw safonau, gwneud yn siwr bod yr adeilad yn addas a diogel, edrych a yw eich poilisiau a chynlluniau gweithredol yn addas.

